YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

DYDD Gwener, 31 Mawrth 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: G.H. John (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
J Lewis, Rheolwr Partneriaeth Rhanbarthol (Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol)
B. Walters, Cydlynydd Prosiect
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.20 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 23AIN MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023, gan ei fod yn gywir.

3. CYMERADWYO'R RHAGLEN ANGOR POBL A SGILIAU SPF Y DU, THEMÂU AR GYFER PROSIECTAU ANNIBYNNOL A GALWAD AGORED AR GYFER LLUOSI

Atgoffwyd yr Aelod Cabinet fod y Cabinet wedi derbyn argymhelliad y Bartneriaeth Adfywio yn flaenorol ar y modelau cyflawni ar gyfer gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer y themâu/prosiectau canlynol:

- Rhaglenni Angor – Rhaglenni thematig a ddatblygwyd o dan bob un o themâu allweddol y Gronfa Ffyniant Gyffredin a fydd yn rheoli rhannau mawr o'r strategaeth fuddsoddi.
- Prosiectau annibynnol – Ceisiadau strategol a fydd yn mynd i'r afael â heriau nad ydynt yn cael eu cynnwys gan y prosiectau Angor. Bydd ceisiadau'n cael eu gwahodd drwy alwadau agored.
- Prosiectau a gomisiynwyd – Caffael gweithgaredd i ddarparu gweithgaredd wedi'i ddiffinio'n union nad yw'n cael ei gyflawni gan y modelau cyflenwi y manylir arnynt uchod.

Ar ôl hynny, bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Rhaglen Angor, Galwad Agored Prosiectau Annibynnol a'r alwad agored - Lluosi - a bod caniatâd yn cael ei roi ar gyfer bwrw ymlaen â'r elfennau hynny y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

3.1 Cymeradwyo'r Rhaglen Angor Pobl a Sgiliau fel yr argymhellwyd gan Bartneriaeth Adfywio Sir Gaerfyrddin.

3.2 Cymeradwyo'r Papur Prosiectau Annibynnol a chyflwyno'r themâu allweddol ar gyfer galwad agored o dan y flaenoriaeth

3.3	**Pobl a Sgiliau fel yr argymhellwyd gan y Bartneriaeth Adfywio. Cymeradwyo'r Galwadau Agored ar gyfer ceisiadau ar gyfer y Rhaglen Lluosi o fewn y flaenoriaeth Pobl a Sgiliau.**

AELOD O'R CABINET	**DYDDIAD**